Pwy biau'r ardd?

Rhannu / Pawb a'i rôl

Dyna oedd y cwestiwn mawr un bore braf.
"Y fi biau'r ardd" meddai'r pry genwair. "Y fi sy'n trin yr ardd bob dydd o'r flwyddyn. Y fi sydd yn troi'r pridd a'i adael yn bridd da i dyfu blodau a llysiau." "Na, fi biau'r ardd" meddai'r robin. "Mi fydda i'n canu yn yr ardd bob bore ac yma byddaf yn cael fy mrecwast, cinio, te a swper. Y fi sydd yn bwyta'r pryfed sydd yn gwneud drwg i'r blodau a'r llysiau." Daeth llais bach, tawel o ganol y blodyn. "Na fi biau'r ardd. Fi sy'n mynd o flodyn i flodyn i gasglu paill" meddai'r glöyn byw gwyn. Weithiau mae'n anodd dweud pa un ydi'r blodyn a pha un ydi'r glöyn byw. Mae'r ddau mor lliwgar. Roedd y glöyn byw gwyn yn sicr mai fo oedd piau'r ardd.
Roedd y fuwch goch gota yn gwrando'n astud ar y sgwrsio. Mynnodd gael gair i mewn. "Y fi biau'r ardd. Rydw i yn dodwy wyau melyn ar y dail. Bydd yr wyau melyn yn deor a bydd eu cynrhon duon yn bwyta'r dail. Mae'n nhw'n byw ar y llyslau. Nhw ydi'r pryfed gwyrdd sy'n gwneud drwg i'r rhosod. Fi biau'r ardd."
Daeth y cacwn mawr i'r ardd i chwilio am neithdar. Bu'n gwrando ar y sgwrs am dipyn. "Y fi ydi'r gweithiwr caletaf yn yr ardd. Rydw i'n mynd o flodyn i flodyn drwy'r dydd, o fore gwyn tan nos. Gan mai fi ydi'r gweithiwr caletaf, fi biau'r ardd."
Efallai mai'r haul mawr melyn biau'r ardd. Fuasai dim byd yn tyfu'n yr ardd oni bai fod yr haul yn tywynnu. Yn y gaeaf, pan fydd yr haul yn cuddio o dan y cwmwl, does yna ddim llawer yn tyfu'n yr ardd. Ond yn y gwanwyn a'r haf pan mae'r haul yn gynnes bydd y blodau ar llysiau yn tyfu'n sydyn. "Fi biau'r ardd" meddai'r haul mawr melyn, "Fi a neb arall."
Ond mae'r ardd angen glaw. Mae'r glaw yn gwneud i'r blodau a'r llysiau dyfu. Heb y glaw byddai'r planhigion i gyd yn yr ardd yn marw. "Pan fydda i yn dod i'r ardd, bydd pob creadur

arall yn diflannu. Dim ond y fi fydd ar ôl. Fi, felly, biau'r ardd" meddai'r glaw.
Ond pwy biau'r ardd?
Daeth geneth fach gwallt melyn i'r ardd. Hi sy'n chwynnu ac yn dyfrio'r blodau pan fydd y glaw wedi cilio. Hi fydd yn plannu'r hadau. Hi hefyd fydd yn torri'r canghennau pan fyddan nhw wedi tyfu dros y clawdd. Hi fydd yn glanhau'r llwybrau yn yr ardd. Ar ôl iddi orffen ei gwaith bydd yn eistedd ar y gadair yng nghornel yr ardd. Mae hi'n mwynhau ei hun yn yr ardd. Petaech chi'n gofyn iddi hi 'pwy biau'r ardd,' mae'n siŵr y byddai'n dweud mai hi biau'r ardd. Os gwn i pwy biau'r ardd?

O Dduw, helpa fi i wneud fy rhan bob amser, os mai dim ond ychydig yw hynny. Amen

✦ Mae'r ardd yn perthyn i bawb, ac mae pob creadur a phlanhigyn yn bwysig yn yr ardd. Sut mae'r creaduriaid a'r eneth fach yn helpu'r ardd i dyfu?
✦ Ydi'r haul a'r glaw yn helpu'r ardd?